OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**10.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) ar ôl y diffiniad o "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", hepgorer yr "ac";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw unrhyw wlad neu diriogaeth ac eithrio'r Ynysoedd Prydeinig."

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "ac Aelod-wladwriaethau" rhodder "a Gweinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "ddeddfwriaeth yr UE" rhodder "unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gymwys".

(4) Yn rheoliad 5(1), yn lle "ac Aelod-wladwriaethau" rhodder "a Gweinidogion Cymru".

(5) Hepgorer rheoliadau 14, 15 a 16.

(6) Yn rheoliad 17—

(a) hepgorer paragraff (3);

(b) ym mharagraff (5), hepgorer is-baragraffau (a) a (b).

(7) Yn rheoliad 19(1)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer "14, 15 neu";

(b) yn is-baragraff (b)—

(i) hepgorer "14, 15 neu";

(ii) yn lle "rheoliadau hynny" rhodder "rheoliad hwnnw".

(8) Yn rheoliad 20(2), hepgorer "neu reoliad 16".

(9) Yn rheoliad 22, hepgorer y diffiniad o "y tiriogaethau perthnasol" a'r "ac" o'i flaen.

(**1**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2019/1482 (Cy. 266); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Fe'i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102) a 2019/1046 (Cy. 185) ond mae'r diwygiadau hynny wedi eu hepgor, yn rhagolygol, gan reoliadau 3(3) a 5(4) o'r Rheoliadau hyn.

(10) Yn rheoliad 28(1), hepgorer is-baragraffau (b) ac (ch).

(11) Hepgorer rheoliad 35(**2**).

(12) Yn rheoliad 41—

(a) ym mharagraff 1(b), hepgorer "neu baragraff (4) neu (5) o reoliad 35";

(b) ar ôl paragraff 1(d) mewnosoder**—**

"(e) yn mynd yn groes i ddarpariaethau unrhyw offeryn a wneir o dan Erthygl 53 o Reoliad 178/2002 neu'n methu â chydymffurfio â hwy."

(13) Yn Atodlen 6, yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 5(1)(b) o Reoliad 2019/1602, yn yr ail golofn, yn lle "IMSOC" rhodder "system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol".

(**2**) Gweler rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer datganiadau arbed darpariaethau a wneir o dan reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 sydd mewn grym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.